Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar

# Galwad Allan i Ymarferwyr Creadigol: Cwestiynau Cyffredin

## A fyddaf yn bendant yn cael gwaith?

Rydych yn gwneud cais i fod yn rhan o'r gronfa ddata Ymarferydd Creadigol. Nid yw bod yn rhan o'r gronfa ddata yn warant o waith. Bydd pob lleoliad blynyddoedd cynnar yn defnyddio'r gronfa ddata i anfon galwadau prosiect at yr Ymarferwyr Creadigol sydd ar gael i weithio yn eu cylch daearyddol. Os oes gennych ddiddordeb yn yr alwad, gallwch wneud cais am y gwaith drwy ddilyn proses ymgeisio lleoliad y blynyddoedd cynnar a chewch eich gwahodd i fynd i gyfweliad lle bo hynny'n berthnasol. Ni allwn warantu y cewch gynnig gwaith fel rhan o Ddysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar.

## Os caf fy recriwtio, faint o waith a gaf?

Nod ein menter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yw caniatáu hyd at 7 diwrnod o waith sy'n debygol o ddigwydd fel 14 hanner diwrnod, neu gymysgedd o ddiwrnodau llawn a hanner gan ddibynnu ar y lleoliad.

## Os caf fy recriwtio, pa ffi y gallaf ei disgwyl?

Mae'r holl Ymarferwyr Creadigol sy'n gweithio i'r fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar yn cael £300 y dydd / £150 yr hanner diwrnod.

## Ydw i'n gallu hawlio teithio?

Ydych, rydych yn gallu hawlio treuliau teithio gan gynnwys milltiroedd i'ch lleoliad ac oddi yno, yn ogystal â'ch ffi, yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer Contractwyr.

## Pwy sy'n gyfrifol am fy ngwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd?

Mae'n dibynnu. Rhaid i bob Ymarferydd Creadigol sy'n gweithio fel rhan o'r fenter Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar feddu ar dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n ddilys cyn dechrau gweithio mewn lleoliad blynyddoedd cynnar. Os nad ydych wedi cofrestru â'r gwasanaeth diweddaru neu os nad oes gennych dystysgrif ddilys, y lleoliad Blynyddoedd Cynnar sydd wedi'ch penodi fydd yn gyfrifol am gynnal gwiriad newydd.

## Oes rhaid i mi ddod â'm hadnoddau fy hun?

Dyrennir cyllideb i bob prosiect i brynu neu logi adnoddau y gellir eu defnyddio gyda'r plant. Nid yw'r gyllideb yn gallu talu am wariant cyfalaf na phrynu offer fel offerynnau neu offer digidol. Os yw eich ymarfer yn cynnwys defnyddio'r eitemau felly, efallai y bydd angen i chi ystyried eu llogi neu ddefnyddio eich adnoddau eich hun. Wrth ystyried a ddylech ddefnyddio eich adnoddau eich hun fel rhan o brosiect, sicrhewch fod gennych yr yswiriant priodol i dalu am unrhyw ddifrod neu golled posibl.

## Os nad ydw i'n hyderus yn y Gymraeg a gaf ofyn i rannu'r swydd ag Ymarferydd arall?

Os byddwch yn gweld galwad am Ymarferydd Creadigol sy'n addas i'ch sgiliau ond mae angen rhywfaint o gymorth ychwanegol arnoch i'w gyflwyno yn Gymraeg, gallwch wneud cais i rannu swydd, gyda'r ffi a'r nifer o ddiwrnodau i'w rhannu rhyngoch chi ac Ymarferydd Creadigol arall. Os nad oes gennych rywun yn y golwg a allai rannu'r gwaith â chi ond yr hoffech gael eich ystyried ar gyfer galwad sy'n gofyn am y Gymraeg, nodwch eich anghenion wrth ymateb.

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales | Ariennir gan y Loteri Lottery Funded | Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru Part Funded by Welsh Government | Early Years Wales Blynyddoedd Cynnar Cymru | mudiad meithrin | phf Paul Hamlyn Foundation